

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

1 o'r gloch Dydd Gwener, 13 Mai 2016
Yr Atom, Caerfyrddin

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Mair Stephens	MS	Aelod Bwrdd Gweithredol (Cadeirydd)
Cyng. Cefin Campbell	CC	Plaid Cymru (Is-gadeirydd)
Cyng. Hugh Richards	HR	Annibynnol
Cyng. Deryk Cundy	DC	Llafur
Cyng. Peter Hughes Griffiths	PHG	Plaid Cymru
Cyng. Gwyn Hopkins	GH	Plaid Cymru
Cyng. Calum Higgins	CH	Llafur
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol
Swyddogion		
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Mair Stephens. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Ryan Bartlett, Cynghorydd Joseff Davies a Wendy Walters.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.	
3.	Strategaeth Hybu Esboniodd MJ ei bod wedi diweddarau'r Strategaeth yn unol â'r drafodaeth yng nghyfarfod olaf y Panel a bod y Fforwm Strategol Sirol wedi trafod y ddogfen ddrafft.	

	<p>Mae sgerbwdd o'r ddogfen yn ei le ond mae angen gwaith datblygu pellach ar y bennod ar Fesur Effaith.</p> <p>Cadarnhawyd yr amserlen ar gyfer cytuno'r Strategaeth, a nodwyd bod cyfarfod Tynged yr Iaith wedi ei drefnu gan Gymdeithas yr Iaith ar 17 Medi. Bydd y ddogfen bron ar ffurf orffenedig erbyn hynny ond bydd cyfle i edrych ar ddatblygu cynllun gweithredu gyda phartneriaid ar draws y sir.</p> <p>Nododd MS ei gofid o ran Cymraeg i Oedolion a bod nifer o elfennau i ddod ynghyd cyn i'r tymor academaidd newydd gychwyn yn Hydref 2016. Nodwyd fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion wedi cadarnhau na fydd trafodaeth o ran datblygu cwricwlwm Cymraeg y Gweithle am tua dwy i dair mlynedd.</p> <p>Nododd PHG ei fod ef a HR wedi mynychu noson agored Menter Cwm Gwendraeth Elli, gan gyflwyno adborth positif. Roedd cynnwys y noson yn tanlinellu pa mor anodd yw hi i grynhoi'r holl weithgarwch sy'n digwydd ar draws y sir mewn un Strategaeth Hybu.</p> <p>Esboniodd GA bod adborth positif o'r Fforwm Strategol Sirol o ran y ddogfen ddrafft, a cafwyd trafodaeth ynglŷn a rôl cyrff cyhoeddus eraill yn y sir wrth ddatblygu'r ddogfen hon. Atgoffwyd aelodau nad yw'r cyrff cyhoeddus eraill wedi derbyn eu Safonau hyd yn hyn.</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran Heddlu Dyfed Powys a phwysigrwydd yr Heddlu o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Nodwyd bod Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd wedi ei benodi. Gofynnwyd i'r tîm polisi i gysylltu a'r Comisiynydd gan ofyn iddo edrych ar y Gymraeg o fewn Heddlu Dyfed Powys gan geisio efelychu yr hyn a wneir gan Heddlu Gogledd Cymru.</p> <p>Nododd CC ei ofid mai 'activity based outcomes' yn hytrach na 'language based outcomes' sy'n digwydd ar draws y sir a gofynnwyd y cwestiwn a ydy'r holl weithgaredd yn ateb yn gofynion ac yn atal y dirywiad a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf? Ychwanegwyd at hyn o ran y cynllun Twf, a nodwyd gofid bod y cynllun wedi dod i ben, a hynny yn dilyn y gwaith gwych a wnaed gan Twf.</p> <p>Esboniodd GA bod Llywodraeth Cymru yn dechrau edrych ar brosiectau 'newid ymddygiad'. Bydd modd i ni drafod hyn ymhellach gyda Llywodraeth Cymru, ac yn benodol o ran sut dy ni'n mesur effaith.</p> <p>Cytunwyd i gysylltu â siroedd yn y Gogledd i ofyn am ddiweddariad o ran y Strategaeth Hybu a mesur effaith.</p> <p>Nododd MS ei gofid nad oes rôl cydlynol ar waith ar hyn o bryd a trafodwyd y gefnogaeth y gellir ei ddarparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.</p> <p>Gofynnodd DC a ydy ni yn hyderus o ran gwaelodlin y data er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn medru nodi cynnydd.</p> <p>Dywedodd GH ei fod wedi mynychu cyfarfod Dyfodol i'r Iaith yn Abertawe a bod llwyddiannau gwledydd megis Gwlad y Basg wrth gynyddu nifer y</p>	<p>Tîm Polisi</p> <p>Tîm Polisi</p>
--	---	-------------------------------------

	<p>siaradwyr o 529,000 i 714,000 dros ugain mlynedd wedi ei amlygu. Tanlinellwyd y pwysigrwydd o ddysgu gan eraill wrth gynllunio dros y Gymraeg.</p>	
4.	<p>Polisi defnydd mewnol</p> <p>Atgoffodd LIE pawb fod angen i'r Cyngor baratoi Polisi ar ddefnydd y Gymraeg yn fewnol er mwyn cydymffurfio â Safon 94. Y bwriad yw adolygu'r ddogfen yn flynyddol.</p> <p>Amlinellodd LIE gynnwys y ddogfen drafft. Trafodwyd y canlynol:</p> <p>Sylwadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gofynnodd CC am y broses o ddatblygiad proffesiynol ieithyddol – beth sy'n digwydd os nad ydy rhywun yn cyrraedd y man y dylen nhw o fewn cyd-destun amser. <p>Eglurodd GA ei fod yn anodd i ni osod disgwyliadau o fewn contract cyflogaeth heb fod gennym ddarpariaeth o ran rhaglen hyfforddiant priodol. Nododd CC mor greiddiol yw datblygu'r cwricwlwm Cymraeg yn y Gweithle a holodd oedd modd rhoi pwysau i symud y broses ymlaen? Eglurodd MS ei bod wedi cwrdd gydag Efa Gruffudd Jones, ond nad oes bwriad i ddatblygu cwricwlwm Cymraeg yn y Gweithle am ddwy flynedd arall. Eglurodd GA fod y Cyngor yn ceisio rhoi rhywbeth yn ei le yn y cyfamser.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cafwyd trafodaeth am bapurau pwyllgorau democrataidd. Nododd GH y byddai'n beth da cael cynllun i sicrhau fod cofnodion y cyfarfodydd yn ddwyieithog, ac yna ymlaen at yr adroddiadau, fesul adran, gan ddechrau gydag addysg. Nodwyd fod yr holl gofnodion sy'n ymddangos ar y we eisoes yn gorfod bod yn ddwyieithog. Ond, pwysleisiodd DC y dylai'r adroddiadau fod ar gael yn Gymraeg gan ei fod yn anodd i aelodau gyfrannu i drafodaeth yn Gymraeg os ydy'r gwaith papur yn Saesneg. <p>Eglurodd GA fod system gyfieithu peirianyddol yn cael ei archwilio fel posibilad ar hyn o bryd, a fydd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Awgrymwyd canfod gwaelodlin o gyflwyniadau, papurau cyfarfod ayb sy'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg nawr ac yna mesur cynnydd dros gyfnod o 3 mlynedd.</p> <p>Cytunodd yr aelodau fod angen edrych ar hyn ymhellach yn y dyfodol a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> Awgrymodd CH bod angen cryfhau'r geiriad wrth sôn am y Tîm Marchnata a'r Cyfryngau, ein bod yn 'disgwyl' nid yn 'annog'... Awgrymodd CC ein bod yn cynnwys manylion cyswllt y tîm polisi er mwyn i staff wybod fod yna gefnogaeth ar gael ac i ble i droi ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. 	<p>Tîm Polisi</p> <p>Tîm Polisi</p>
5.	<p>Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad</p> <p>Cyflwynwyd drafft o Adroddiad Blynyddol y Safonau. Eglurodd LIE y byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynllun cyfathrebu blynyddol yn ogystal â chanllawiau'r staff ar y Safonau ayb i'r Comisiynydd yn ogystal.</p> <p>Eglurodd MJ fod nifer o argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad yn ffitio i mewn i Adroddiad Blynyddol y Safonau. Mae'r gweddill naill ai yn ymddangos yn y</p>	

	<p>Strategaeth Addysg, yn y Polisi Mewnol neu yn y Strategaeth Hybu, ac mae'r argymhellion nad ydynt yn ffitio i mewn i'r uchod yn ymddangos fel atodiad ar ddiwedd yr Adroddiad Blynyddol.</p> <p>Holodd CC am gynnydd ar wersi nofio cyfrwng Cymraeg. Eglurodd LIE fod y sefyllfa bresennol yn yr Atodiad i'r adroddiad blynyddol, sef bod lefelau 1-3 ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wahân yng Nghanolffannau hamdden Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin, bod lefelau 4-7 sesiynau dwyieithog a lefelau 7-12 yn cael eu darparu trwy clybiau lleol. Nododd bod angen gwaith pellach ar hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael, a bod angen i staff y dderbynfa fod yn hyderus o'r hyn sydd ar gael er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth. Eglurodd MS ei bod yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Adran hamdden i drafod cynnydd.</p> <p>Nodwyd bod rhai cyrff llywodraethu chwaraeon, fel Nofio Cymru, yn darparu adnoddau uniaith Saesneg. Mae yna adnodd newydd gan y Comisiynydd o'r enw <i>Amdani</i> a fydd efallai'n helpu'r sefyllfa. Nodwyd y dylid sicrhau nad ydyn ni'n cael y bai am ddeunyddiau Saesneg cyrff eraill a bod angen sicrhau nad yw logo'r Cyngor Sir ar y deunyddiau hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nododd GH bod diffyg cyrsiau i lywodraethwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd GA bod y Tîm Polisi yn edrych i mewn i hyn. <p>Cytunwyd y byddai pawb yn darparu sylwadau ar yr Adroddiad yn ei chyfanrwydd cyn ddiwedd mis Mai. Bydd angen cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd erbyn 30 Mehefin 2016.</p>	Tîm Polisi
6.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod.</p>	
7.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>12 Gorffennaf am 2 o'r gloch yn yr Ystafell Gynadledda Democrataidd, Neuadd y Sir.</p>	